# Adroddiad Blynyddol Panel Dyfarnu Cymru

## Blwyddyn 2024 – 2025

PDC / APW

PANEL DYFARNU CYMRU
ADJUDICATION PANEL FOR WALES

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| Rhagair | | 3 |
| Adran 1 | Amdanom ni | 5 |
| Adran 2 | Perfformiad a Chynnydd | 9 |
| Adran 3 | Crynodebau o Achosion | 13 |
| Adran 4 | Blaenoriaethau Busnes | 16 |
| Adran 5 | Gwariant | 17 |



OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG52744, ISBN digidol 978-1-80633-238-0
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Rhagair

Hwn yw fy adroddiad cyntaf fel Llywydd Panel Dyfarnu Cymru. Mae'r adroddiad yn ymdrin â'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025.

Roedd yn fraint ac yn bleser derbyn rôl Llywydd PDC ac mae arnaf ddyled fawr i'r Llywydd sy'n ymadael, y Barnwr Claire Sharp, am ei rheolaeth arbenigol ar yr awdurdodaeth yn ystod ei deiliadaeth wyth mlynedd, gan ddarparu mynediad effeithlon ac effeithiol at gyfiawnder i ddefnyddwyr y Tribiwnlys. Mae ei safonau uchel wedi sicrhau awdurdodaeth sy'n rhedeg yn llyfn ac yn effeithiol, a thrwy drosglwyddo'r cyfrifoldeb ataf yn ofalus mae wedi sicrhau bod dechrau yn y rôl wedi bod yn broses ddidrafferth i mi. Rwy'n ddiolchgar, hefyd, am gynhesrwydd y croeso a gefais gan y deiliaid swyddi barnwrol a'r staff gweinyddol, fel ei gilydd.

Ar yr un pryd ag y cefais fy mhenodi, penodwyd Barnwr yr Uwch Dribiwnlys, Edell Fitzpatrick, yn Ddirprwy Lywydd y Tribiwnlys. Mae hi'n Farnwr yn Siambr Apeliadau Gweinyddol yr Uwch Dribiwnlys ac mae ganddi brofiad helaeth o dribiwnlysoedd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Rwy'n credu'n gryf ym mhwysigrwydd hyfforddiant barnwrol i sicrhau cysondeb ac ansawdd gwneud penderfyniadau. Mae'r ffocws ar bwysigrwydd hyfforddiant yn cyfateb i un o flaenoriaethau Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru ar gyfer y flwyddyn ac mae'n gyfle arbennig o bwysig mewn awdurdodaeth fach i ehangu profiad deiliaid swyddi barnwrol.

Roedd yn bleser, felly, fynychu'r hyfforddiant blynyddol ym mis Hydref 2024, a gafodd ei drefnu, am y tro cyntaf, ar y cyd â Thribiwnlys Addysg Cymru. Gwnaeth y deiliaid swyddi barnwrol fwynhau sesiynau cyffredinol a sesiynau yn ymwneud ag awdurdodaeth benodol i gyd-fynd â'u hanghenion hyfforddi penodol ac fe gawsant gyfle i ddod yn fwy cyfarwydd â'r deiliaid swyddi barnwrol mewn awdurdodaeth ddatganoledig arall.

Mae rhoi Gorchymyn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Diwygio Atodlen 6) 2025 ar waith ym mis Mawrth 2025 yn golygu bod y Tribiwnlys o'r diwedd yn gydnaws â'r awdurdodaethau datganoledig eraill yng Nghymru, drwy ei wneud yn ddarostyngedig i'r gofyniad i gydymffurfio â rhai o safonau'r Gymraeg. Rwy'n falch y bydd ymrwymiad y Tribiwnlys i'r Gymraeg bellach yn cael ei gydnabod ac mae gwaith gyda swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yn mynd rhagddo i sicrhau bod y gofynion yn cael eu rhoi ar waith yn llawn. Unwaith eto, mae rheolaeth effeithiol y Barnwr Sharp ar yr awdurdodaeth wedi sicrhau bod y Tribiwnlys eisoes yn bodloni'r mwyafrif helaeth o'r safonau perthnasol, ymhell cyn y gofyniad statudol i wneud hynny.

Mae gwaith yr awdurdodaeth wedi aros ar lefel gyson. Mae'r nifer bach o achosion ac apeliadau yn ei gwneud yn anodd tynnu sylw at unrhyw themâu ac elfennau penodol o'r achosion a ddygwyd gerbron y Tribiwnlys. Mae'n amlwg, er hynny, fod cyffredinrwydd defnydd amhriodol o'r cyfryngau cymdeithasol gan gynghorwyr, heb ystyried natur gyhoeddus eu swyddi, yn ymddangos yn y mwyafrif o achosion. Gall hwn fod yn faes i gynghorwyr sy'n dod i mewn roi sylw penodol iddo yn y dyfodol, o gofio'r defnydd cynyddol o'r cyfryngau cymdeithasol ym mhob agwedd ar fywyd.

Mae'n fwriad meithrin gwydnwch y Tribiwnlys drwy benodi dau aelod cyfreithiol pellach drwy gystadleuaeth agored y Comisiwn Penodiadau Barnwrol a thrwy gynnig awdurdodiad ychwanegol i aelodau o dribiwnlysoedd datganoledig eraill i eistedd yn yr awdurdodaeth. Caiff yr ymarferion hyn eu cynnal dros y misoedd nesaf i sicrhau bod darpariaeth ddigonol ar gyfer gwrandawiadau yn y dyfodol.

Rwyf wedi sylwi ar ddiffyg dealltwriaeth gan ddefnyddwyr o natur ffurfiol achosion cyfreithiol mewn tribiwnlysoedd dros y blynyddoedd diwethaf ac rwyf yn bwriadu cymryd camau i wneud rolau deiliaid swyddi barnwrol a staff gweinyddol tribiwnlysoedd yn gliriach yn PDC. Bydd o gymorth i ddefnyddwyr ddeall mai barnwriaeth y Tribiwnlys sy'n gwneud penderfyniadau a bod y penderfyniadau hyn yn cael eu cyfleu i ddefnyddwyr drwy'r cofrestrydd, yn hytrach na chael eu gwneud gan y tîm gweinyddol. Mae'n bwysig iawn bod defnyddwyr yn deall bod cyfarwyddydau a gorchmynion a roddir gan y Tribiwnlys yn cydberthyn i orchmynion a chyfarwyddiadau llys ac y dylid rhoi sylw a phwys priodol iddynt.

Yn ystod y flwyddyn, ymddiswyddodd y Barnwr Richard Payne o'i awdurdodiad yn yr awdurdodaeth i ymgymryd â rôl gyflogedig yn Nhribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru. Rydym yn ddiolchgar am ei gyfraniad at waith PDC ac yn estyn ein dymuniadau gorau iddo yn ei rôl newydd.

Mae croeso ichi ofyn unrhyw gwestiynau neu gyflwyno sylwadau ar unrhyw agwedd ar waith y Tribiwnlys, neu gynnwys yr Adroddiad, a dylid eu cyfeirio yn y lle cyntaf at y Cofrestrydd.

**Y Barnwr Meleri Tudur**
**Llywydd Panel Dyfarnu Cymru**

# Adran 1 – Amdanom ni

Yn yr adran hon:

- Y sail ar gyfer PDC
- Swyddogaeth PDC
- Rheoliadau PDC
- Proses PDC
- Aelodau PDC
- Penodiadau
- Hyfforddiant
- Cysylltu â PDC
- Defnyddio PDC

## Y sail ar gyfer PDC

Mae Panel Dyfarnu Cymru (PDC) yn dribiwnlys annibynnol a sefydlwyd i benderfynu ar honiadau o dorri amodau Cod Ymddygiad statudol awdurdod gan aelodau etholedig ac aelodau cyfetholedig o gynghorau sir, bwrdeistrefi sirol a chynghorau cymuned, awdurdodau tân ac awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru.

Sefydlwyd PDC o dan Ran III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

## Swyddogaeth PDC

Mae Cod Ymddygiad awdurdod yn rhoi i'w aelodau set o safonau a ddisgwylir ganddynt mewn bywyd cyhoeddus. Mae'r Cod Ymddygiad yn ymdrin ag amrywiol ofynion o ran sut y dylai aelodau ymddwyn, ac mae'n cynnwys gofynion o ran cydraddoldeb, buddiannau personol a buddiannau rhagfarnus, gwybodaeth gyfrinachol, adnoddau eu hawdurdod a'r angen i osgoi dwyn anfri ar eu swydd neu eu hawdurdod.

Mae gan PDC ddwy swyddogaeth statudol mewn perthynas â thorri'r Cod Ymddygiad:

- ffurfio tribiwnlysoedd achos neu dribiwnlysoedd achos interim ("Tribiwnlysoedd Achos") i ystyried **atgyfeiriadau** gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, yn dilyn ymchwiliad i honiadau bod aelod wedi methu cydymffurfio â Chod Ymddygiad ei awdurdod; ac
- ystyried **apeliadau** gan aelodau yn erbyn penderfyniadau pwyllgorau safonau awdurdodau lleol eu bod wedi torri'r Cod Ymddygiad ("Tribiwnlysoedd Apêl").

## Rheoliadau PDC

Mae PDC yn gweithredu yn unol â'i reoliadau gweithdrefnol a deddfwriaeth gysylltiedig arall. Mae'r rheoliadau'n sicrhau bod pob achos a glywir gan PDC yn cael ei drin yn deg, yn gyson, yn brydlon ac yn gyfiawn. Maent yn sicrhau bod pawb sy'n dod gerbron PDC yn deall yn glir y camau y mae rhaid iddynt eu dilyn er mwyn cyflwyno ffeithiau'r anghydfod a'r dadleuon perthnasol yn effeithiol i PDC. Maent hefyd yn sicrhau bod pob parti mewn achos yn deall dadleuon y parti arall ac yn gallu ymateb iddynt.

Mae gweithdrefnau PDC yn cael eu llywodraethu gan y ddeddfwriaeth ganlynol:

- Deddf Llywodraeth Leol 2000 (fel y'i diwygiwyd);
- Rheoliadau Dyfarniadau gan Dribiwnlysoedd Achos a Thribiwnlysoedd Achos Interim (Cymru) 2001 (fe y'u diwygiwyd), a
- Rheoliadau Archwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001 (fel y'u diwygiwyd).

## Proses PDC

Rhaid i unrhyw un sy'n dymuno ymateb i atgyfeiriad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru neu wneud cais am ganiatâd i apelio i PDC lenwi'r ffurflen berthnasol a'i hanfon at PDC.

Mewn gwrandawiad o PDC bydd y panel yn cynnwys cadeirydd sy'n gymwys yn gyfreithiol (Barnwr y Tribiwnlys) a 2 aelod lleyg (Aelodau'r Tribiwnlys). Gall aelodau sydd wedi cymhwyso'n gyfreithiol hefyd eistedd fel aelodau lleyg. Fel arfer, cynhelir gwrandawiadau PDC yn gyhoeddus ac mewn lleoliad sy'n agos at ardal yr awdurdod.


Mae PDC yn cyhoeddi ei benderfyniadau ar ei wefan. Gellir apelio yn erbyn penderfyniadau Tribiwnlysoedd Achos ar seiliau cyfyngedig i'r Uchel Lys. I ddechrau, rhaid ceisio caniatâd gan yr Uchel Lys i gyflwyno apêl iddo.

Mae canllawiau a gwybodaeth lawn am PDC a'i weithdrefnau ar gael ar wefan PDC. Fel arall, cysylltwch â thîm gweinyddol PDC i gael rhagor o wybodaeth neu os hoffech dderbyn cyhoeddiadau mewn fformat gwahanol. Mae'r manylion cyswllt i'w gweld ar dudalen 7 ac 8.

## Aelodau PDC

Mae penodiadau i PDC yn cael eu gwneud gan Brif Weinidog Cymru ar ôl ystyried argymhellion a wnaed gan y Comisiwn Penodiadau Barnwrol.

| | |
|---|---|
| **Llywydd** | Mae gan y **Llywydd** gyfrifoldeb barnwrol dros PDC a'i aelodau. |
| **Dirprwy Lywydd** | Mae'r **Dirprwy Lywydd** yn cynorthwyo'r Llywydd ac yn cyflawni dyletswyddau Llywydd os nad yw'r Llywydd yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau, dros dro neu'n barhaol. |
| **Barnwyr y Tribiwnlys** | Mae **Barnwyr y Tribiwnlys** yn gyfreithwyr cymwysedig ac maent yn gyfrifol am gynnal trafodaethau mewn gwrandawiadau ac am gynghori'r tîm gweinyddol ar faterion cyfreithiol. Mae Barnwyr y Tribiwnlys yn ysgrifennu penderfyniadau PDC ac yn rhoi cyfarwyddydau yn ôl yr angen. |
| **Aelodau'r Tribiwnlys** | Mae gan **Aelodau'r Tribiwnlys** ystod eang o wybodaeth a phrofiad sy'n berthnasol i waith PDC. |
| **Y Tîm Gweinyddol** | Mae'r dyletswyddau gweinyddol o ddydd i ddydd yn cael eu dirprwyo yn bennaf i'r tîm gweinyddol sy'n delio â'r holl waith papur rhagarweiniol ac yn prosesu'r ceisiadau i PDC. Gwneir penderfyniadau ar yr holl bwyntiau cyfreithiol sy'n codi yn ystod y camau rhagarweiniol cyn y gwrandawiad gan y Llywydd a/neu Farnwyr y Tribiwnlys. Mae'r weinyddiaeth yn anfon dyfarniadau a chyfarwyddydau yn ysgrifenedig at y partïon. Mae'r tîm gweinyddol yn gweithredu fel pwynt cyswllt ar gyfer Barnwyr y Tribiwnlys, aelodau a defnyddwyr PDC, ac yn mynychu gwrandawiadau i helpu i sicrhau bod achosion yn mynd rhagddynt yn effeithlon. |



## Penodiadau

Penodwyd Meleri Tudur ac Edell Fitzpatrick yn aelodau cyfreithiol yn ystod y cyfnod adrodd diwethaf. Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, penodwyd Meleri Tudur yn Llywydd ac mae Edell Fitzpatrick wedi'i phenodi'n Ddirprwy Lywydd.

Nid oes unrhyw aelodau ychwanegol wedi'u penodi yn ystod y cyfnod adrodd hwn.

## Cysylltu â PDC

I gysylltu â Thîm Gweinyddol PDC:

| | |
|---|---|
| Cyfeiriad PDC: | Cofrestrydd y Panel<br>Panel Dyfarnu Cymru<br>Uned Tribiwnlysoedd Cymru<br>Blwch Post 100<br>Llandrindod<br>LD1 9BW |
| Rhif ffôn PDC: | 03000 259805 |
| E-bost PDC: | adjudication.panel@gov.wales |

## Defnyddio PDC

Mae PDC yn hapus i gyfathrebu â chi yn Gymraeg neu yn Saesneg. Os nad oes neb sy'n siarad Cymraeg ar gael ar unwaith, byddwn yn trefnu i aelod Cymraeg o'r staff eich ffonio chi'n ôl.

Gallwch ddewis cynnal eich gwrandawiad yn Gymraeg neu yn Saesneg. Os nad Cymraeg neu Saesneg yw'ch iaith gyntaf, ac os ydych am siarad eich iaith gyntaf yn ystod y gwrandawiad, gallwn drefnu cyfieithydd. Os bydd angen dehonglwr iaith arwyddion arnoch yn y gwrandawiad, gallwn drefnu hynny.

Gwneir darpariaeth os bydd gennych chi, neu unrhyw un sy'n dod gyda chi i'r gwrandawiad, unrhyw ofynion eraill o ran mynediad a allai effeithio ar ein trefniadau ar gyfer y gwrandawiad.

Er mwyn gallu trefnu i gyfieithwyr/dehonglwyr fod yn bresennol neu er mwyn darparu ar gyfer unrhyw anghenion ychwanegol sydd gan fynychwyr, rhaid rhoi rhybudd digonol i'r tîm gweinyddol ymlaen llaw.

# Adran 2 – Perfformiad a Chynnydd

Yn yr adran hon:

- Niferoedd ac ystadegau
- Data gwrandawiadau
- Apeliadau pellach
- Cyflawni yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol
- Cwynion


## Niferoedd ac Ystadegau

Mae blwyddyn Tribiwnlys yn rhedeg o fis Ebrill i fis Mawrth. Gan fod nifer yr achosion a ddaw i law yn gymharol isel, rhoddir ffigurau am gyfnod o 5 mlynedd i ganiatáu cymharu.


Mae'r ystadegau canlynol wedi'u cydgasglu:

- Nifer yr atgyfeiriadau a'r apeliadau a ddaeth i law
- Y math o geisiadau a ddaeth i law ac a gofrestrwyd
- Nifer y ceisiadau a gwblhawyd yn derfynol
- Canlyniad y ceisiadau.

Graff 2.1: Nifer yr atgyfeiriadau ac apeliadau a ddaeth i law yn ôl blwyddyn Ebrill 2020 – Mawrth 2025




Graff 2.2: Nifer yr atgyfeiriadau ac apeliadau y penderfynwyd arnynt yn ôl blwyddyn
Ebrill 2019 – Mawrth 2024





Siart 2.3: Canlyniadau atgyfeiriadau ac apeliadau Ebrill 2019 – Mawrth 2024

Mae'r siart isod yn dangos canlyniadau atgyfeiriadau ac apeliadau a benderfynwyd gan y Panel Dyfarnu dros y pum mlynedd diwethaf.



Graff 2.4: Torri amodau yn ôl math Ebrill 2019 – Mawrth 2024




## Data gwrandawiadau

Yn ystod 2024-2025:

| **Math** | **Hyd (mewn diwrnodau)** |
| --- | --- |
| Atgyfeiriadau | 4 |
| Apêl | 1 |

Cynhaliwyd 0 o gynadleddau rhestru mewn perthynas â'r achosion hyn.

## Apeliadau pellach

Gellir gwneud cais am ganiatâd i apelio yn erbyn penderfyniad Tribiwnlys Achos neu Dribiwnlys Achos Interim ar seiliau cyfyngedig i'r Uchel Lys. Dros gyfnod yr adroddiad hwn, ni wnaed unrhyw geisiadau am ganiatâd.

## Cyflawni yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol

Er mwyn monitro pa mor effeithiol y mae gwasanaethau'n cael eu cyflenwi, mae gennym ddangosyddion perfformiad allweddol sy'n ceisio mesur dwy agwedd allweddol ar ein gwaith; effeithlonrwydd ein gwasanaeth ac ansawdd y gwasanaeth drwy fodlonrwydd cwsmeriaid.

Er mwyn mesur cyflymder ein gwasanaeth, mae gennym gyfres o ddangosyddion perfformiad sylfaenol sy'n seiliedig ar yr amser a gymerir i brosesu cais – o'r adeg y bydd cais yn cyrraedd i'r gwrandawiad neu pan fydd wedi'i gwblhau (gweler isod).

## Cyflymder ein gwasanaeth 2024-2025

| | |
|---|---|
| **Targed:** Ymdrin â 95% o ymholiadau neu dderbyn achosion o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl iddynt ddod i law | Cyrhaeddwyd y targed mewn 100% o achosion |
| **Targed:** Rhoi 100% o hysbysiadau gwrandawiad i ymatebydd/apelydd o leiaf 15 niwrnod gwaith cyn y gwrandawiad ac o leiaf 5 niwrnod gwaith cyn unrhyw wrandawiad gohiriedig | Cyrhaeddwyd y targed mewn 100% o achosion |
| **Targed:** Cyhoeddi 100% o'r hysbysiadau o wrandawiad o fewn 10 diwrnod i'r gwrandawiad | Cyrhaeddwyd y targed mewn 100% o achosion |
| **Targed:** Cyhoeddi 90% o benderfyniadau o fewn 30 diwrnod i'r gwrandawiad | Cyrhaeddwyd y targed mewn 100% o achosion |
| **Targed:** Rhyddhau 75% o geisiadau o fewn 12 mis | Cyrhaeddwyd y targed mewn 100% o achosion |

## Cwynion

Ni wnaeth PDC gael na chwblhau unrhyw gwynion ffurfiol yn ystod y cyfnod adrodd o dan sylw.

# Adran 3 – Crynodebau o achosion

Yn yr adran hon:

- Atgyfeiriadau
- Materion Interim
- Apeliadau

## Atgyfeiriadau

### APW/004/2023-024/CT – Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Tref Cei Connah

Yr honiadau oedd bod y cyn-gynghorydd wedi ymddwyn mewn modd y gellid barnu yn rhesymol ei fod yn dwyn anfri ar ei swydd neu'r awdurdod. Roedd yr honiadau yn cynnwys bwlio ac aflonyddu ar berson agored i niwed a cheisio manteisio ar ei statws ei hun; gohebiaeth fygythiol, frawychus ac amharchus â'r swyddogion Tai a'r Swyddog Monitro; rhannu gwybodaeth ariannol gyfrinachol a methu â datgan buddiant. Roedd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru o'r farn bod yr ymddygiadau hyn wedi dwyn anfri ar ei swydd fel cynghorydd a/neu'r Awdurdodau.

Er na chafodd yr holl honiadau a wnaed gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru eu profi, dyfarnodd y tribiwnlys achos yn unfrydol fod y cyn-gynghorydd wedi torri paragraffau 4(b), (c) a (d); paragraff 5(a); paragraff 6(1)(a) a pharagraff 7(a) o'r Cod Ymddygiad.

Ni chanfu'r Tribiwnlys fod paragraffau 11(2)(a) neu 14(1)(d) wedi'u torri.

Daeth y tribiwnlys achos i'r casgliad y dylai'r cyn-gynghorydd gael ei anghymhwyso am bedwar mis rhag bod yn aelod o'r awdurdodau perthnasol.

Mae copi llawn o'r adroddiad i'w gael yma.

### APW/006/2023-024/CT – Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Tref Aberystwyth

Yr honiadau oedd bod y cyn-gynghorydd wedi torri sawl paragraff o'r Cod Ymddygiad drwy gamymddwyn parhaus.

Daeth y tribiwnlys achos i'r casgliad bod ymddygiad y cyn-gynghorydd yn rheibus, a'i bod yn ymddangos ei fod yn targedu'r rhai nad oeddent yn debygol o godi pryderon.

Gwnaeth y tribiwnlys achos anghymhwyso'r cyn-gynghorydd am gyfnod o dair blynedd rhag bod neu ddod yn aelod o'r awdurdod neu o unrhyw awdurdod perthnasol arall.

Mae'r penderfyniad llawn i'w gael yma.

### APW/007/2023-024/CT – Cyngor Tref Cei Newydd

Yr honiad oedd bod y cyn-gynghorydd wedi ymddwyn mewn modd y gellid barnu yn rhesymol ei fod yn dwyn anfri ar ei swydd neu'r awdurdod perthnasol.

Manylion yr honiad oedd bod y cyn-gynghorydd wedi anfon negeseuon o natur rywiol iawn at unigolyn a oedd yn gyfystyr â'r drosedd o aflonyddu gan arwain at yr hyn y gellid ei ystyried yn ymgais i flacmelio'r derbynnydd. Arweiniodd hyn at rybuddiad amodol gan yr Heddlu.

Dyfarnodd tribiwnlys achos yn unfrydol fod y cyn-gynghorydd wedi methu â chydymffurfio â pharagraff 6(1) o'r Cod Ymddygiad ac fe wnaeth anghymhwyso'r cyn-gynghorydd am gyfnod o 12 mis rhag bod neu ddod yn aelod o'r awdurdod perthnasol.

Mae copi llawn o'r penderfyniad i'w gael yma.

### APW/001/2024-025/CT – Cyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr

Yr honiadau oedd bod y cyn-gynghorydd wedi ymddwyn mewn modd y gellid barnu yn rhesymol ei fod yn dwyn anfri ar ei swydd neu'r awdurdod perthnasol.

Casglodd y tribiwnlys achos fod y cyn-gynghorydd wedi dangos diffyg parch tuag at y clerc yn ystyr paragraff 4(b) ac fe ddyfarnodd, mewn perthynas â'r nifer o ddigwyddiadau gyda'i gilydd ac yng nghyd-destun yr hanes a'r berthynas ehangach rhwng yr Ymatebydd a'r clerc, fod tystiolaeth ddigonol o batrwm ymddygiad i gyfiawnhau dyfarniad o dorri'r Cod o dan baragraff 4(c).

Gwnaeth y tribiwnlys achos anghymhwyso'r cyn-gynghorydd am gyfnod o 21 mis rhag bod yn aelod o'r awdurdod neu rhag dod yn aelod o'r awdurdod.

Mae copi llawn o'r penderfyniad i'w gael yma.

## Materion interim

Nid oedd unrhyw dribiwnlysoedd achos interim yn ystod y cyfnod adrodd.

## Apeliadau

### APW/008/2023-024/AT – Cyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr

Daeth apêl i law yn erbyn penderfyniad y pwyllgor safonau fod y cyn-gynghorydd wedi torri'r Cod Ymddygiad. Roedd seiliau'r apêl wedi'u cyfyngu i ystyried a oedd y gosb wedi'i chymeradwyo. Dyfarnodd y Llywydd nad oedd gan yr apêl mewn perthynas ag elfen torri Cod yr apêl unrhyw obaith rhesymol o lwyddo. Cadarnhawyd dyfarniad y Pwyllgor Safonau bod yr apelydd wedi torri paragraff 7(a) o'r Cod Ymddygiad.

Dyfarnodd y tribiwnlys apêl yn unfrydol na ellid ystyried bod torri chwe gwahanol baragraff o'r Cod gan yr apelydd yn "batrwm ymddygiad" neu'n achos o fethu â chydymffurfio â'r Cod dro ar ôl tro. Daeth y tribiwnlys apêl i'r casgliad bod cyfnod atal dros dro o chwe mis yn ormodol ac nad oedd o'r farn bod y toriadau yn yr achos o'r natur fwyaf dybryd.

Cyfeiriwyd y mater yn ôl at y Pwyllgor Safonau gydag argymhelliad y dylai'r Apelydd gael ei atal dros dro am 10 wythnos yn unol â Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001.

Mae'r penderfyniad llawn i'w weld yma.

### APW/003/2024-025/AT – Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a Chyngor Tref y Waun

Daeth apêl i law y tu hwnt i'r cyfnod o 21 diwrnod a nodir yn Rheoliad 10(2) o Reoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001 yn erbyn penderfyniad y Pwyllgor Safonau bod y cyn-gynghorydd wedi torri'r Cod Ymddygiad. Nid oedd unrhyw gais wedi'i wneud am estyniad amser oherwydd amgylchiadau eithriadol ac ni dderbyniwyd yr apêl.

Darllenwch y penderfyniad llawn yma.

# Adran 4 – Blaenoriaethau Busnes

Yn yr adran hon:

- Blaenoriaethau busnes ar gyfer 2024-2025

Mae'n bwysig bod PDC yn parhau i ddatblygu er mwyn darparu'r gwasanaeth gorau posibl i'n cwsmeriaid. Mae'r adran hon yn ymwneud â sut y bydd PDC yn adeiladu ar ei lwyddiannau drwy ganolbwyntio ar flaenoriaethau busnes a'n hymrwymiad i'n cwsmeriaid.

## Blaenoriaethau Busnes 2025-2026

- Sicrhau bod darpariaethau Gorchymyn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Diwygio Atodlen 6) 2025 yn cael eu rhoi ar waith yn amserol ac yn effeithiol;
- Parhau i ddarparu gwasanaeth effeithiol ac effeithlon, gan fodloni dangosyddion perfformiad allweddol;
- Magu gwydnwch y Tribiwnlys drwy benodi ac awdurdodi deiliaid swyddi barnwrol ychwanegol.

# Adran 5 – Gwariant

Yn yr adran hon:

- Gwariant ar gyfer 2024-2025

## Gwariant ar gyfer 2024-2025

| Cynnwys | Swm |
|---|---:|
| Cyfanswm Costau Rhedeg y Tribiwnlys | £25,479.31 |
| Y Gyfran a Briodolir i Hyfforddiant | £6,416.59 |

Wedi'i dalgrynnu i'r £1 agosaf